LLENYDDIAETH AR DRAWS FFINIAU

literary europe live

Fforwm Llenyddiaeth Rhyngwladol ar Ddatblygu Cynulleidfaoedd

Aberystwyth 2016

RHAGLEN

Croeso

Annwyl Gynadleddwr,

Croeso cynnes iawn i Aberystwyth a'n Fforwm Llenyddiaeth Rhyngwladol ar Ddatblygu Cynulleidfaoedd. Mawr obeithiaf y byddwch yn mwynhau eich profiad yma ac y bydd y trafodaethau yn cynnig ysbrydoliaeth a gwybodaeth o'r newydd.

Fel rhan o'n prosiect arloesol Ewrop Lenyddol Fyw, 'rydyn ni wedi dwyn ynghyd siaradwyr a phanelwyr o bob cwr o Ewrop a thu hwnt i rannu eu profiadau, eu syniadau a'u gwybodaeth unigryw nhw. Dros y deuddydd nesaf, fe fyddan nhw'n ein tywys, ein hysbrydoli a'n procio wrth i ni ganolbwyntio'n sylw ar ddatblygu'r gynulleidfa ar gyfer llenyddiaeth mewn cyfieithiad a mynd i'r afael â rhai o'r cwestiynau mawr sy'n wynebu'n diwydiant ni heddiw.

Beth yn union ydyn ni'n ei olygu wrth sôn am ddatblygu cynulleidfa? Pwy yw'r cynulleidfaoedd presennol a'r cynulleidfaoedd posib ar gyfer llenyddiaeth rhyngwladol heddiw? Sut a pham mae pobl yn ymgysylltu gyda llenyddiaeth o ddiwylliannau gwahanol? Wrth geisio creu perthynas gyda chynulleidfaoedd, beth yw'r rhwystrau sy'n ein hwynebu a sut mae eu gorchfygu? Oes yna ryw fformiwla hud ar gyfer hoelio sylw ar gyfieithiadau llenyddol? Sut mae meithrin a hyrwyddo dyfeisgarwch ym maes rhaglennu llenyddiaeth rhyngwladol a datblygu cynulleidfa? Sut gall technoleg ddigidol ein cynorthwyo i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a hynny mewn modd ystyrlon?

Dyma rai yn unig o'r cwestiynau y byddwn ni'n eu codi dros y dyddiau nesaf ac edrychaf ymlaen at drafodaeth gyfoethog a phwrpasol. Fe fyddwn ni'n cyhoeddi ffrwyth trafodaethau'r Fforwm mewn adroddiad swyddogol a'n gobaith yw y bydd hwn yn adnodd defnyddiol at y dyfodol i chi - ac i'r sector yn gyffredinol - wrth ddatblygu cynulleidfaoedd.

Fel pob un o'n cynadleddau, mae'r digwyddiad hwn hefyd yn gyfle gwerthfawr i rwydweithio ac i greu cysylltiadau newydd a allai arwain at brosiectau a phartneriaethau newydd.

Yn olaf, ond yr un mor bwysig, mae'r digwyddiad yn gyfle i ddathlu penblwydd Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau yn 15 oed ac i ni edrych yn ôl ar yr hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma.

Hoffwn estyn diolch i Raglen Ewrop Greadigol yr Undeb Ewropeaidd am eu cefnogaeth ar hyd y blynyddoedd, i Gyngor Celfyddydau Cymru a Swyddfa Ewrop Greadigol y DU - Cymru am ein galluogi i gynnal y Fforwm hwn ac i Brifysgol Aberystwyth am gefnogaeth gyson dros y pymtheng mlynedd diwethaf.

Alexandra Büchler
Cyfarwyddwr, Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau

DYDD GWENER 15 EBRILL 2016

Lleoliad Rhaglen y Dydd
Canolfan y Celfyddydau, Campws Penglais, Prifysgol Aberystwyth, SY23 3DE.

Pryd?	Beth?	Ble?
09:00	**Cofrestru a Choffi**	Prif Gyntedd
10:00	**Areithiau Croesawu** Alexandra Büchler Cyfarwyddwr, Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau Yr Athro Sarah Prescott Cyfarwyddwr Athrofa Llenyddiaeth, Ieithoedd a'r Celfyddydau Creadigol Prifysgol Aberystwyth	Sinema
10:10	**Sesiwn Lawn 1** **Araith Allweddol**: Sjøn (Awdur) ***Small World, World Literature***	Sinema
10:30	**Trafodaeth Banel – Sesiwn Lawn** **Ysbrydoli Cynulleidfaoedd Ar Draws Ewrop a Thu Hwnt** Beth ydyn ni'n ei olygu wrth ddatblygu cynulleidfa a phwy yn gwmws yw'r gynulleidfa heddiw? Ydy'r cysyniad yn amrywio o wlad i wlad? Mae daliadau'r panelwyr yn cwmpasu profiad eang ar draws nifer o ranbarthau Ewrop a thu hwnt. **Mika Buljevic** (Booksa) **Ilke Froyen** (Passa Porta) **Cristina Fuentes** (Gŵyl y Gelli) **Dan Gorman** (Gŵyl Shubbak) **Ted Hodgkinson** (Canolfan y Southbank) **Cadeirydd: Jon Gower** (Awdur a Darlledwr)	Sinema
11:30	**Coffi**	Bar Llawr 1
12:00	**Gweithdai Rhan 1** Cyfle i drafod cynulleidfaoedd ac i amlinellu'r heriau a'r rhwystrau strwythurol sydd ynghlwm â'r gwaith o gysylltu'r cyhoedd â llenyddiaeth rhyngwladol trwy gyfrwng perfformiadau byw, dulliau digidol neu brint. Beth sy'n gweithio? Dewiswch un o'r gweithdai isod a thrafodwch yr heriau sy'n codi ar adegau gwahanol wrth i chi fynd ati i lunio rhaglen ar gyfer digwyddiadau cyhoeddus. **Gweithdy 1A: Rhaglenni â'u ffocws ar y gynulleidfa** Sut mae dethol llenorion sy'n cynnig gwaith o safon ac amrywiaeth ddiwylliannol ond sydd hefyd yn dal i ddenu cynulleidfa? Sut mae ymgysylltu ac ymgynghori â chynulleidfaoedd a sut mae cael adborth sydd o werth? Beth yw'r problemau mwyaf cyffredin sy'n codi wrth ddewis llenorion rhyngwladol? Sut mae cadw cydbwysedd rhwng awduron enwog a rhai llai adnabyddus? **Siaradwyr**: **Kate Griffin** (Writers' Centre Norwich) **Karla Pudar** (Festival of the European Short Story) **Sophie Wardell** (Free Word Centre) **Hwylusydd**: **Peggy Hughes** (Literary Dundee) **Gohebydd**: **Carys Ifan** (Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau) **Gweithdy 1B: Ehangu ac Amrywio Cynulleidfaoedd** Sut mae datblygu ac amrywio cynulleidfaoedd ar gyfer llenyddiaeth ryngwladol? Pa rwystrau strwythurol allai'n hatal rhag cyrraedd a chreu cynulleidfaoedd yn ein maes? Sut mae newid ein hagwedd tuag at raglennu a threfnu digwyddiadau er mwyn cysylltu'n fwy effeithiol gyda chynulleidfaoedd mewn achosion lle mae mynediad at ddiwylliant llenyddiaeth rhyngwladol yn anodd? Sut mae modd i'r gynulleidfa ein harwain ni? Sut olwg fyddai ar ddigwyddiadau llenyddol rhyngwladol pe ceid perthynas gryfach gyda'r gynulleidfa a pherthynas agosach gyda materion cymdeithasol o bwys? Sut mae mesur yr ymgysylltu hwn, gan ddefnyddio ansawdd y berthynas yn hytrach na niferoedd? Pwy ydym 'ni' a phwy yw'r rheiny 'rydyn ni'n ceisio eu cyrraedd? ...Parhad	Uned Greadigol Y Stiwdio Gron

DYDD GWENER 15 EBRILL 2016

Lleoliad Rhaglen y Dydd
Canolfan y Celfyddydau, Campws Penglais, Prifysgol Aberystwyth, SY23 3DE.

Pryd?	Beth?	Ble?
12:00	**Siaradwyr:** **Antoine Cassar** (Inizjamed) **Jonathan Ruppin** (Orson & Co) **Ryan van Winkle** (Highlight Arts) **Hwylusydd: Jennifer Williams** (Scottish Poetry Library) **Gohebydd: Nia Davies** (Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau)	
12:00	**Gweithdy 1C: Cyrraedd mwy o ddarllenwyr ar gyfer llenyddiaeth mewn cyfieithiad** Mae darllen, wrth reswm, yn brofiad personol. Sut mae mynd ati i hyrwyddo llyfrau a chyfieithiadau llenyddol i gyrraedd darllenwyr yn hytrach na chynulleidfaoedd byw? Ydy asiantaethau sy'n datblygu darllen yn ystyried llenyddiaeth mewn cyfieithiad fel rhan o'u gwaith a beth allwn ni ei ddysgu o'u dulliau nhw o ddatblygu darllen yn gyffredinol? Pa ran mae e-gyhoeddi wedi ei chwarae wrth gynyddu nifer y darllenwyr ar gyfer cyfieithiadau llenyddol? Ydy'r twf ym maes cylchgronau arlein sy'n cyhoeddi cyfieithiadau llenyddol ac sy'n cynnig cynnwys yn rhad ac am ddim wedi arwain at gynyddu nifer y darllenwyr? Wrth i'r gofod ar gyfer adolygiadau print leihau, ydy adolygiadau arlein a blogiau wedi llwyddo i lenwi'r bwlch? A beth all cyhoeddwyr a chyfieithwyr ei wneud er mwyn cyrraedd darllenwyr? **Siaradwyr**: **Ruth Martin** (Cyfieithydd) **Diogo Coelho** (Booktailors) **Tony Ward** (Arc Publications) **Hwylusydd: Susan Curtis-Kojakovic** (Istros Books) **Gohebydd: Mika Buljevic** (Booksa)	
13:00	**Cinio**	Bar Llawr 1
14:15	**Sesiwn Lawn 2** **Araith Allweddol: Vinutha Mallya** (Asiantaeth Lenyddol Kaavi a Chynhadledd Publishing Next) ***Turning the Tide: Literary exchange between Europe and the Indian subcontinent***	Sinema
14:30	**Trafodaeth Banel 2 – Sesiwn Lawn** **Syniadau, Syniadau, Syniadau** Gwibdaith weledol o gwmpas prosiectau sy'n torri tir newydd, dulliau arloesol o lunio rhaglenni ac arferion effeithlon o ran datblygu cynulleidfa. **Alexandra Büchler** (Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau) **Dan Butler** (NESTA / Cronfa Arloesi Digidol i'r Celfyddydau yng Nghymru) **Nia Davies** (Poetry Wales / Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau) **Richard Davies** (Parthian Books) **Erica Jarnes** (PEN Lloegr) **Christiane Lange** (Literaturwerksatt) **Canan Marasligil** (Translation City) **Aleksandra Olszewska** (Biuro Literackie) **Jonathan Ruppin** (Orson / Clwb Llyfrau PEN) **Katrin Thomaneck** (Finnegan's List) **Jennifer Williams** (Llyfrgell Farddoniaeth yr Alban) **Ryan van Winkle** (Highlight Arts) **Meike Ziervolgel** (Peirene Press) **Cadeirydd: Alexandra Büchler** (Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau)	Sinema
16:00	**Gweithdai Rhan 2** **Gwerthuso 'Datblygu Cynulleidfa'** Mynd â'r drafodaeth ymhellach. Cyfle i dreiddio'n ddyfnach i gnewyllyn datblygu cynulleidfa, i fanylu, i bennu arfer gorau, i edrych tua'r dyfodol ac i fynd i'r afael â'r materion creiddiol. Dewiswch un o'r tri gweithdy isod: ...Parhad	

DYDD GWENER 15 EBRILL 2016

Lleoliad Rhaglen y Dydd
Canolfan y Celfyddydau, Campws Penglais, Prifysgol Aberystwyth, SY23 3DE.

Pryd?	Beth?	Ble?
16:00	**Gweithdy 2A** **Gweithio ar draws ffurfiau celfyddydol a harnesu dyfeisgarwch digidol** Mae'r gwaith o 'ledu'r gair' wedi'i hwyluso'n rhyfeddol gan ddatblygiadau technolegol, gyda nifer fawr o brosiectau bellach yn cyfathrebu'n ddigidol trwy gyfrwng gwefannau, apiau a dulliau newydd o rwydweithio. Ond a yw potensial y dechnoleg ddigidol wedi'i ddefnyddio hyd yr eithaf er budd datblygu cynulleidfaoedd ar gyfer hybu amrywiaeth o fewn llenyddiaeth? Beth allwn ni ei ddysgu oddi wrth ffurfiau a meysydd celfyddydol eraill? Sut mae sicrhau bod dyfeisgarwch digidol yn gweithio o'n plaid ni? Ydy'r gefnogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd yn ddigonol o gofio natur gyfnewidiol yr oes dechnolegol sydd ohoni? **Siaradwyr**: **Birgit Hatlehol** (Oslo Poesifilm) **Erica Jarnes** (English PEN) **Canan Marasligil** (Translation City) **Hwylusydd**: **Dan Butler** (NESTA, Cronfa Arloesi Digidol i'r Celfyddydau yng Nghymru) **Gohebydd**: **Caroline Stockford** (Wales PEN Cymru)	Uned Greadigol
16:00	**Gweithdy 2B** **Polisïau datblygu cynulleidfa yma a thramor** Mae datblygu cynulleidfa bellach yn brif flaenoriaeth i gyrff sy'n cyllido'r celfyddydau, ynghyd â sicrhau budd i'r cyhoedd. Beth yw goblygiadau hyn i fudiadau a phrosiectau ym maes llenyddiaeth? Beth yw'r berthynas rhwng y pwyslais ar ddatblygu cynulleidfa a chwestiynau ehangach o ran mynediad i'r celfyddydau a diwylliant, anghenion datblygu proffesiynol, a diffiniadau o ragoriaeth artistig? Sut gall mudiadau werthuso ymgysylltiad cynulleidfa a dylanwad cymdeithasol mewn modd sy'n ddefnyddiol i lunwyr polisi a chyllidwyr tra'n parhau i fod yn berthnasol i'w gwaith ar lawr gwlad? Sut mae gweithio gyda chynulleidfaoedd yn lleol ac yn rhyngwladol, a beth yw'r dulliau datblygu cynulleidfa gorau ar lefel leol, genedlaethol ac Ewropeaidd? **Siaradwyr**: **Ingveig Astad** (Comisiwn Ewropeaidd) **Katie Haines** (Swyddfa Ewrop Greadigol y DU, Cyngor Prydeinig) **Emma Langley** (Cyngor Celfyddydau Lloegr, trwy gyfrwng fideo) **Nicola Morgan** (Celfyddydau Rhyngwladol Cymru / Cyngor Celfyddydau Cymru) **Hwylusydd**: **Elin Haf Gruffydd Jones** (Prifysgol Aberystwyth) **Gohebydd**: **David Lopez-del Amo** (Asiantaeth Lenyddol Sinicus)	Y Stiwdio Gron
16:00	**Gweithdy 2C** **Y byd academaidd ac arferion celfyddydol** Mae'r byd academaidd yn cydgyffwrdd â'r celfyddydau ar sawl lefel: caiff talent creadigol y dyfodol ei feithrin yn y sector addysg uwch a gall ysgolheigion fod yn ymarferwyr celfyddydol; gall prifysgolion hefyd fod yn feithrinfeydd ar gyfer brosiectau traws-ddisgyblaethol ar y cyd. Mae cyflwyno cyrsiau ysgrifennu creadigol i'r cwricwla a chydnabod bod ymarfer celfyddydol yn gerbyd dilys ar gyfer ymchwil academaidd wedi dod â'r ddau fyd yn agosach fyth. Mae'r byd academaidd hefyd yn cydgyffwrdd â'r celfyddydau ym maes rheoli diwylliannol a datblygu polisi. Beth yw'r cysylltiad rhwng y byd academaidd a'r diwydiant llenyddiaeth celfyddydol a sut gallwn ni fanteisio ar y cysylltiad yma er budd datblygu cynulleidfaoedd rhyngwladol? **Siaradwyr**: **Marion Löffler** (Prifysgol Cymru) **Bruno Sibona** (Prifysgol Aberystwyth) **Zoë Skoulding** (Prifysgol Bangor) **Hwylusydd**: **Andrea Hammel** (Prifysgol Aberystwyth) **Gohebydd**: **Robyn Marsack** (Llyfrgell Farddoniaeth yr Alban)	Sinema
17:00	**Cyhoeddiad Lleisiau Newydd o Ewrop** Cyfle i glywed pwy yw'r deg llais llenyddol newydd sydd wedi eu dewis gan reithgor rhyngwladol Ewrop Lenyddol Fyw ar gyfer eu hyrwyddo yn ystod 2016-17. Bydd derbyniad gwin yn dilyn.	Bar Llawr 1

DYDD GWENER 15 EBRILL 2016

Lleoliad Rhaglen yr Hwyr
Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Ffordd Penglais, Aberystwyth, SY23 3BU

Pryd?	Beth?	Ble?
19:00	**Swper**	Ystafell y Cyngor
20:30	**Sesiwn Lawn 3** **O'r Lleol i'r Llwyfan Mwy** Gydag adeilad eiconig y Llyfrgell Genedlaethol yn gefndir, bydd **Fflur Dafydd** yn trafod sut aeth ati i addasu ei nofel iasoer *Y Llyfrgell* ar gyfer cynulleidfa ryngwladol y sgrîn fawr. Bydd cipolwg cynnar ar ambell olygfa o'i ffilm nodwedd a gaiff ei rhyddhau ym mis Medi 2016. Yno hefyd bydd **Caryl Lewis**, awdur *Martha, Jac a Sianco* - nofel arall wedi'i lleoli yng ngorllewin Cymru ac a gafodd ei haddasu ar gyfer y sinema. Bydd Caryl hefyd yn siarad am ei gwaith addasu ar sgriptiau cyfres ddiectif *Y Gwyll*, a gynhyrchwyd ar y cyd yn Gymraeg a Saesneg. **Cadeirydd:** Ifor ap Glyn (Bardd Cenedlaethol Cymru)	Y Drwm
22:00	**Diwedd**	

Bydd rhai sesiynau yn cael eu ffrydio'n fyw ac eraill yn cael eu ffilmio a'u rhannu'n gyhoeddus gyda chynulleidfaoedd newydd. Bydd lluniau llonydd hefyd yn cael eu tynnu yn ystod y digwyddiad at ddibenion hyrwyddo ac archif.
@MakingLitTravel #EwropLenyddolFyw

DYDD SADWRN 16 EBRILL 2016

Lleoliad Rhaglen y Dydd
Yr Hen Goleg, Stryd y Brenin, Aberystwyth, SY23 2AX.

Pryd?	Beth?	Ble?
09:30	**Sesiwn Lawn 4** **Adnoddau Datblygu Cynulleidfa** Sesiwn lawn i greu bwydlen-i-fynd o weledigaethau ar gyfer y dyfodol, syniadau, dyfeisiadau defnyddiol ac adnoddau datblygu cynulleidfa i'w cynnwys yn Adroddiad Swyddogol y Fforwm, gyda chrynodebau o sesiynau llawn Dydd Gwener, adroddiadau o'r gweithdai, cwestiynau a sylwadau o'r llawr. **Reporters: Alexandra Büchler** (Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau), **Carys Ifan** (Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau), **Nia Davies** (Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau/Poetry Wales), **Miljenka Buljevic** (Booksa), **Caroline Stockford** (Translator), **David Lopez-del Amo** (Sinicus). **Cadeirydd: Robyn Marsack** (Scottish Poetry Library)	Yr Hen Neuadd
11:00	**Coffi**	Y Cwad
11:30	**Sesiwn Lawn 5** **Araith Allweddol:** Patrick McGuinness (Awdur) ***Other People's Countries: Tales of Literary & Cultural Belonging*** Cyflwynir gan **Yr Athro M. Wynn Thomas** Dan Nawdd Cymdeithas Ddysgedig Cymru	Yr Hen Neuadd
12:30	**Derbyniad Gwin** Dan Nawdd Cymdeithas Ddysgedig Cymru	The Quad
13:00	**Cinio**	Ystafell Seddon
14:15	**Ewrop Greadigol a Chyfleoedd Rhyngwladol Eraill** Cyfle i glywed mwy am Is-Bwyllgor Diwylliant Ewrop Greadigol sy'n cefnogi'r sector diwylliannol a chreadigol ac sy'n cyllido'n bennaf prosiectau ar y cyd ar draws ystod o ffurfiau celfyddydol, gan gynnwys cyfleoedd cyllido ar gyfer gwaith rhyngwladol yn y celfyddydau. **Siaradwyr:** **Ingveig Astad** (Comisiwn Ewropeaidd, Rhaglen Ewrop Greadigol - Diwylliant) **Nicola Morgan** (Cyngor Celfyddydau Cymru, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru) **Harriet Williams** (Cyngor Prydeinig) **Cadeirydd: Katie Haines** (Swyddfa Ewrop Greadigol y DU, Cyngor Prydeinig)	Yr Hen Neuadd
15:45	**Te Cymreig** Dan Nawdd Parthian Europa Carnivale a Library of Wales	Y Cwad
16:15	**Sesiwn Lawn 6** **Araith Allweddol**: Jo Glanville (English PEN) ***The Price of Freedom of Speech*** Bydd Cyfarwyddwr PEN Lloegr, Jo Glanville, yn troi ei sylw at bwysigrwydd rhyddid mynegiant barn a'r rhwystrau cynyddol sy'n wynebu llenorion mewn rhannau o'r byd heddiw. Mae rhyddid mynegiant yn un o brif egwyddorion Siarter PEN sy'n uno ac yn cynnig arweiniad i Ganolfannau PEN mewn dros 100 o wledydd ledled y byd. Mae'r araith yn nodi Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol cyntaf PEN Cymru, wedi deuddeg mis o weithgareddau yn y wlad hon a thu hwnt. Yn dilyn ei haraith, caiff neges fideo ei dangos gan y cyhoeddwr Cwrdaidd, Lal Lales, sy'n gweithio gyda Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau a'n partner Canolfan Celfyddyd Diyarbakir ar brosiect a fydd yn cyflwyno llenyddiaeth Cwrdaiddd Twrci i gynulleidfa ryngwladol am y tro cyntaf. **Cadeirydd**: **Owen Sheers** (Awdur, Cyd-Gadeirydd Wales PEN Cymru)	Yr Hen Neuadd
17:30	**Derbyniad Rhwydweithio** Dan Nawdd Swyddfa Ewrop Greadigol y DU	Ystafell Seddon
19:00	**Cinio Dathlu'r Fforwm** Mae'n Fforwm yn dirwyn i ben ond cyn ffarwelio, cyfle i ddathlu'r digwyddiad ynghyd â phenblwydd Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau yn 15 oed, gyda bwyd da a dawnsio. **Cerddoriaeth: DJ Sgilti Ysgafn Droed**	Belle Vue

Rhestr Cynadleddwyr

Mae manylion a lluniau'n prif siaradwyr, panelwyr ac arweinwyr gweithdai i'w cael ar ein gwefan:
www.lit-across-frontiers.org

Enw	Swydd neu Sefydliad
Ágnes Füle	Amgueddfa Lenyddol Petőfi, Hwngari
Aleksandra Olszewska	Biuro Literackie, Gwlad Pŵyl
Alexandra Büchler	Cyfarwyddwr, Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau
Alys Conran	Awdur a Darlithydd mewn Ysgrifennu Creadigol, Prifysgol Bangor
Andrea Hammel	Darllenydd mewn Almaeneg, Adran Ieithoedd Modern, Prifysgol Aberystwyth
Angela Jarman	Golygydd, Arc Publications
Angelina Radakovic	Cydlynydd Arddangosfeydd a Rhaglenni, Yr Ystafelloedd Mosaic, Sefydliad A.M.Qattan
Anna Marjatta Milsom	Cyfieithydd llenyddiaeth Sbaeneg sy'n gweithio yn Ecuador
Antoine Cassar	Bardd a Chyfieithydd, Inizjamed, Malta
Ashley Rhys Evans	Myfyriwr a Chynorthwy-ydd Digwyddiad, Prifysgol Aberystwyth
Bethan Dalton	Myfyrwraig a Chynorthwy-ydd Digwyddiad, Prifysgol Aberystwyth
Birgit Hatlehol	Sylfaenydd a Chyfarwyddwr Gŵyl Farddoniaeth Ryngwladol Oslo, Oslo Poesifilm
Bobby Nayyar	Awdur a Chyhoeddwr Limehouse Books UK
Branwen Davies	Dramodydd, Cymru
Bruno Sibona	Cyfieithydd a Darlithydd mewn Ffrangeg, Adran Ieithoedd Modern, Prifysgol Aberystwyth
Canan Marasligil	Awdur, cyfieithydd a chyradur llawrhydd o Amsterdam
Carl Sealeaf	Cyd-sylfaenydd Pangaea Poetry, Llundain
Caroline Stockford	Bardd a Chyfieithydd barddoniaeth a llenyddiaeth Twrci i'r Gymraeg a'r Saesneg
Caryl Lewis	Nofelydd a sgriptiwr
Carys Ifan	Cydlynydd Prosiect Ewrop Lenyddol Fyw, Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau
Christiane Lange	Literaturwerkstatt Berlin & Gŵyl Ffilm a Barddoniaeth Zebra
Cristina Fuentes La Roche	Cyfarwyddwr Gŵyliau Rhyngwladol, Gŵyl y Gelli
Dan Butler	Pennaeth Ymchwil a Gwerthuso Cronfa Arloesi Digidol i'r Celfyddydau yng Nghymru, NESTA
Dan Gorman	Cyfarwyddwr, Gŵyl Shubbak
David Lopez-del Amo	Cyfarwyddwr Asiantaeth Lenyddol Sinicus, Tseina
Diogo Coelho	Pennaeth Digwyddiadau, ymgynghoriaeth cyhoeddi Booktailors, Portiwgal
Elena Schmitz	Pennaeth Rhaglenni, Llenyddiaeth Cymru

Rhestr Cynadleddwyr

Enw	Swydd neu Sefydliad
Elin Arfon	Myfyrwraig a Chynorthwy-ydd Digwyddiad, Prifysgol Aberystwyth
Elin Haf Gruffydd Jones	Cyfarwyddwr Sefydliad Mercator ar gyfer Cyfryngau, Ieithoedd a Diwylliant, Prifysgol Aberystwyth
Erica Jarnes	Pennaeth Rhaglen Awduron mewn Cyfieithiad, PEN Lloegr
Esther Prytherch	Swyddog Prosiect, Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau
Fflur Dafydd	Nofelydd, sgriptiwr, cantores a chyd-gadeirydd PEN Cymru
Harriet Williams	Rheolwr Rhaglen Lenyddol, Cyngor Prydeinig
Ifor ap Glyn	Bardd Cenedlaethol Cymru a Chynhyrchydd Teledu
Ilke Froyen	Cyfarwyddwr Cyffredinol Ty Passa Porta a Chyfarwyddwr Gŵyl Llenyddiaeth Passa Porta, Brwsel
Inga Bodnarjuka	Trefnydd Digwyddiadau Diwylliannol, Latfia
Ingveig Astad	Rheolwr Rhaglen Ewrop Greadigol y Comisiwn Ewropeaidd
Jennifer Williams	Bardd a Rheowlr Rhaglen, Scottish Poetry Library
Jo Glanville	Cyfarwyddwr, PEN Lloegr
Jon Gower	Awdur a Darlledwr
Jonathan Ruppin	Sylfaenydd Clwb Llyfrau mewn Cyfieithaid PEN Lloegr; Cyfarwyddwr Llenyddol cwmni cyhoeddi digidol Orson & Co
Karla Pudar	Curadur a threfnydd gŵyliau, Gŵyl Ewropeaidd y Stori Fer, Croatia
Kate Griffin	Cyfarwyddwr Rhaglen Cynorthwyol, Writers' Centre Norwich
Katie Haines	Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu, Swyddfa Ewrop Greadigol y DU, Cyngor Prydeinig
Katrin Thomaneck	Golygydd Finnegan's List a chyfieithydd testunau llenyddol ac erthyglau gwyddorau cymdeithasol
Lise Back Hansen	Pennaeth Rhaglennu, Y Llyfrgell Frenhinol, Copenhagen
Lleucu Haf	Myfyrwraig a Chynorthwy-ydd Digwyddiad, Prifysgol Aberystwyth
M Wynn Thomas	Deilydd Cadair Emyr Humphreys yn Llên Saesneg Cymru ym Mhrifysgol Abertawe ac Is-Lywydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru
Maria Zygogianni	Swyddog Marchnata, Parthian Books
Marion Löeffler	Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru
Martina Fekonja	Cyfarwyddwr Rhaglennu Gweithredol Gŵyl Llenyddiaeth Rhyngwladol Vilenica
Meike Ziervogel	Nofelydd a Sylfaenydd Peirene Press
Menna Elfyn	Bardd a dramodydd; Llywydd PEN Cymru
Meryl Cailloux	Parthian Books

Rhestr Cynadleddwyr

Enw	Swydd neu Sefydliad
Miljenka Buljevic	Cyd-sylfaenydd Kulturtreger, rheolwr Booksa, Croatia, aelod o Fwrdd Golygyddol Eurozine
Nannon Evans	Myfyrwraig a Chynorthwy-ydd Digwyddiad, Prifysgol Aberystwyth
Naomi Nicholas	Myfyrwraig a Chynorthwy-ydd Digwyddiad, Prifysgol Aberystwyth
Ned Thomas	Cyfnewidfa Lên Cymru a Llywydd Sefydliad Mercator, Prifysgol Aberystwyth
Nia Davies	Bardd a Churadur Llenyddol, Rheolwr Cyfathrebu Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau, Golygydd Poetry Wales
Nicola Morgan	Pennaeth Celfyddydau Rhyngwladol Cymru
Owen Sheers	Nofelydd, bardd, dramodydd a chyd-gadeirydd PEN Cymru
Patrick McGuinness	Awdur, bardd a darlithydd Ffrangeg a Llenyddiaeth Cymharol yng Ngholeg Santes Anne, Prifysgol Rhydychen
Peggy Hughes	Cyfarwyddwr, Literary Dundee
Piero Fratini	Cydlynydd Dethol, Rhaglen Ewrop Greadigol, Comisiwn Ewropeaidd
Rebecca Gould	Pennaeth Celfyddydau, Cyngor Prydeinig Cymru
Richard Davies	Cyd-Sylfaenydd Parthian Books a Chyfarwyddwr Masnachol cyfres Library of Wales
Robyn Marsack	Cyfarwyddwr, Scottish Poetry Library
Ruth Martin	Cyfieithydd ffuglen a ffeithiol i'r Almaeneg; aelod o Bwyllgor Cymdeithas y Cyfieithwyr, a Rhwydwaith Cyfieithwyr Newydd
Ryan Van Winkle	Bardd, perfformiwr, podledwr, beirniad ac aelod o Highlight Arts
Sally Baker	Cyfarwyddwr PEN Cymru
Sarah Prescott	Athro Saesneg a Chyfarwyddwr Sefydliad Llenyddiaeth, Ieithoedd a Chelfyddydau
Sjón	Nofelydd, bardd, libretydd a thelynegwr o Wlad yr Iâ
Sophie Wardell	Cynhyrchydd Rhaglenni, Free Word Centre, Llundain
Stephanie Saint	Swyddog Llenyddiaeth, Creative Scotland
Susan Curtis-Kojakovic	Cyfarwyddwr a Sylfaenydd Istros Books
Ted Hodgkinson	Prif Raglenydd Llenyddiaeth a Llafar, Canolfan Southbank, Llundain
Tony Ward	Golygydd Gweithredol / Cyfarwyddwr Arc Publications
Vinutha Mallya	Golygydd, gohebydd ar y diwydiant cyhoeddi ac ymgynghorydd cyhoeddi yn Bangalore; cyd-sylfaenydd Asiatnaeth Lenyddol Kaavi; ymgynghorydd i gynhadledd Publishing Next
Zoë Skoulding	Bardd a Darllenydd yn Ysgol Llenyddiaeth Saesneg, Prifysgol Bangor

LLENYDDIAETH AR DRAWS FFINIAU

literary europe live

Cyd-ariennir gan Raglen Ewrop Greadigol yr Undeb Ewropeaidd
Co-funded by the Creative Europe Programme of the European Union

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru
Supported by The National Lottery® through the Arts Council of Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

PARTHIAN 8 WRITERS, EUROPA, 8 WOMEN, CARNIVALE, 6 COUNTRIES.

THE LEARNED SOCIETY OF WALES
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU

PARTHIAN

Trefnir y Fforwm Llenyddiaeth Ryngwladol gan Llenyddiaeth Ar Draws Ffiniau fel rhan o brosiect Ewrop Lenyddol Fyw sy'n cael ei gefnogi gan Raglen Ewrop Greadigol yr Undeb Ewropeaidd gyda chefnogaeth gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru trwy Swyddfa Ewrop Greadigol y DU – Cymru.